



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

### Cynllun unedig

Bydd cynlluniau datblygu unigol (CDUau) yn disodli datganiadau a chynlluniau dysgu a sgiliau.

Bydd CDUau yn trosglwyddo gyda dysgwyr pan fyddant yn symud o'r ysgol i addysg bellach.

Lle bo angen, y sefydliad addysg bellach a fydd yn penderfynu a oes gan y person ifanc anghenion dysgu ychwanegol (ADY) ac, os felly, yn sefydlu CDU.

Gall sefydliad addysg bellach atgyfeirio penderfyniadau o'r fath i'r awdurdod lleol:

- os yw penderfynu ar raddau a natur yr ADY sydd gan y person ifanc, neu'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) sydd ei hangen arno, y tu hwnt i allu'r sefydliad addysg bellach
- pe na fyddai'n rhesymol i'r sefydliad addysg bellach ei hunan sicrhau'r DDdY sy'n ofynnol.

### Y Gymraeg

Bydd dyletswydd fwy ar sefydliadau addysg bellach o ran y Gymraeg wrth i Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 gael ei diwygio i sicrhau bod addysg a hyfforddiant dysgwyr ôl-16 yn ystyried beth sy'n ofynnol er mwyn cynnig darpariaeth ddysgu ychwanegol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys asesu ADY.

### Hawliau clir a chyson i apelio

Bydd gan ddysgwyr ôl-16 hyd at 25 sy'n dilyn cyrsiau addysg bellach yr hawl i apelio i'r Tribiwnlys Addysg yn erbyn penderfyniadau a wnaed gan awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach mewn perthynas ag ADY neu CDU.

### Ystod oedran 0 hyd at 25

Trefniadau pontio gwell rhwng ysgolion ac addysg ôl-16.



### Cod ADY gorfodol

Gall y Cod ADY bennu gofynion gorfodol ar gyfer sefydliadau addysg bellach yng Nghymru mewn perthynas â:

- phenderfyniadau am ADY
- paratoi CDUau, eu cynnwys a'u ffurf, a sut y dylent gael eu hadolygu a'u diwygio
- rhoi'r gorau i gynnal CDUau.

### Cynnwys plant a phobl ifanc yn fwy

Rhaid i sefydliadau addysg bellach ddynodi cydlynedd anghenion dysgu ychwanegol (cydlynedd ADY). Rôl y cydlynedd ADY fydd cydlynu gwaith cynllunio ac ymyriadau sy'n ymwneud ag ADY.

### Osgoi anghytundebau a datrys anghytundebau'n gynharach

Dylai sefydliadau addysg bellach sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle i godi pryderon a chael atebion cynnar i'w cwestiynau er mwyn osgoi gweld anghytundebau yn codi.

### Mwy o gydweithredu

Bydd awdurdodau lleol a darparwyr ôl-16 yn cydweithio er mwyn gwella, sicrhau a chynllunio ar gyfer darpariaeth leol i ddysgwyr sydd ag ADY.

Lle bo angen, bydd CDUau yn cynnwys DDdY y cytunwyd arni gan wasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau eraill, yn ogystal ag addysg. Bydd CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu sy'n nodi'n glir pa asiantaeth sy'n gyfrifol am gyflenwi'r elfennau unigol.